

Chwe cham at arwyneb glân

Glanhewch yn gyntaf, yna diheintiwch. Dilynwch label y cynnyrch ym mhob cam.

01 Cyn-lanhau

Tynnwch fwyd rhydd a malurion. Cadwch fwyd draw o'r ardal.

02 Prif lanhau

Defnyddiwch lanedydd a dŵr i gael gwared ar sailm a baw. Gweithiwch dros yr arwyneb i gyd.

03 Rinsio

Tynnwch y baw a'r glanedydd sydd wedi llacio â dŵr glân, yn ôl y cyfarwyddyd.

04 Diheintio

Rhowch ddiheintydd sy'n addas i gyswllt â bwyd ar y gwanediad a nodir. Gadewch am yr amser cyswllt llawn.

05 Rinsio terfynol, os oes angen

Defnyddiwch ddŵr glân os yw'r label yn gofyn am rinsio. Peidiwch â rinsio cynnyrch dim-rinsio yn ddiangen.

06 Sychu'n hylan

Gadewch iddo sychu yn yr aer, neu defnyddiwch bapur glân untro lle bo'n addas.

Defnyddiwch ddiheintydd neu lanweithydd sy'n bodloni BS EN 1276 neu BS EN 13697. Mae glanweithydd yn dal i fod angen cam glanhau ar wahân cyn diheintio. Peidiwch byth â chymysgu cynhyrchion.